Pecyn Cyhoeddus

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod Arbennig o'r CABINET**
a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar
Ddydd Mawrth, 26 Gorffennaf 2022

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Ddydd Iau, 28 Gorffennaf 2022. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Ddydd Iau, 4 Awst 2022 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Ddydd Gwener, 5 Awst 2022.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Elizabeth Evans, Rhodri Evans a Gareth Lloyd.

(10.00am - 11.26am)

32 Ymddiheuriadau

i. Ymddiheurodd Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

33 Materion Personol

i. Llongyfarchwyd Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion fel enillwyr cyffredinol cystadlaethau'r CFfI yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru. Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i'r holl gystadleuwyr ar eu llwyddiant yn y sioe a gynhaliwyd yn ddiweddar.
ii. Llongyfarchwyd trigolion Ceredigion ar addurno eu cymunedau lleol yn barod ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Estynnwyd croeso cynnes i bawb sy'n gysylltiedig â'r ŵyl yn y sir yr wythnos nesaf.
iii. Llongyfarchwyd Sioned Harries ar gael ei dewis i gynrychioli Cymru am y pedwerydd tro yng Nghwpan y Byd Merched a gynhelir yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

34 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

i. Datganodd y Cynghorwyr Gareth Davies, Keith Henson a Matthew Vaux fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 40 a gadawsant y cyfarfod pan oedd y mater hwnnw'n cael ei drafod.
ii. Datganodd Eifion Evans fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 40 ar ran yr holl swyddogion a oedd yn bresennol.

35 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2022 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

36 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd: Tynnwch ein Trethi Cyngor allan o Barclays

Nodwyd bod y ddeiseb uchod wedi dod i law ac y byddai'n cael ei thrin yn unol â'r canllawiau yn y Protocol Deisebau.

37 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Dim.

38 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda

Dim.

39 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU: Cyflwyno Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru

PENDERFYNIAD:

1. Nodi Prosbectws, Dyraniadau a Gofynion Allweddol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU er mwyn datgloi cyllid Llywodraeth y DU.
2. Nodi'r dull o ymgynghori ac ymgysylltu er mwyn bwydo i'r gwaith o ddatblygu Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol – a chymeradwyo'r egwyddorion a nodir, fel bod modd drafftio cynlluniau manwl.
3. Cymeradwyo'r dyraniadau ariannol dangosol o 40% Gymunedau a Lle; 40% i Gynorthwyo Busnesau Lleol ac 20% i Bobl a Sgiliau.
4. Cymeradwyo'r trefniant i rannu'r cyllid capasiti o £40k sydd ar gael i Ganolbarth Cymru, a hynny 50/50 rhwng y naill Awdurdod Lleol a'r llall – i adlewyrchu'r cydweithio wrth ddatblygu'r cynllun buddsoddi rhanbarthol hyd yn hyn.
5. Dirprwyo awdurdod ac awdurdodi Cyfarwyddwyr Corfforaethol a swyddog Adran 151 y ddau Awdurdod, gan ymgynghori ag Arweinwyr y Cynghorau, i wneud y penderfyniadau a'r camau sy'n angenrheidiol i gwblhau'r cynllun buddsoddi a derbyn yr arian a ddyrennir, yn ogystal â gweithredu a gweinyddu'r cynllun a'r holl gynlluniau cysylltiedig yn unol â gofynion a blaenoriaethau'r prosbectws a'r gronfa.
6. Cymeradwyo'r model cydgyflawni arfaethedig ar draws Canolbarth Cymru (Ceredigion a Phowys) gyda Chyngor Sir Ceredigion yn awdurdod arweiniol (yr un sy'n cynnal) ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU – gan gynnwys yr egwyddorion arfaethedig o ran brigdorri ac adnoddau.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Fel bod modd i Gyngor Sir Ceredigion fwrw ymlaen gyda Chyngor Sir Powys i ymateb i ofynion Llywodraeth y DU ar gyfer datgloi cyllid i Ganolbarth Cymru.

40 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Pobl a Threfniadaeth ynghylch y Strategaeth Gweithio Hybrid a'r Polisi Dros Dro ar gyfer Gweithio Hybrid gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

(a) Cymeradwyo'r Strategaeth Gweithio Hybrid.

(b) Cymeradwyo'r Polisi Dros Dro ar gyfer Gweithio Hybrid.
(c) Nodi'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a chytuno ar yr argymhelliad y dylid cynnal yr adolygiad ar ôl 12 mis yn hytrach na 18 mis fel y cynigiwyd yn wreiddiol.

Y rheswm dros y penderfyniad:
Er mwyn cefnogi'r broses o roi model newydd ar waith o ran gweithio hybrid.

41 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Alldro Refeniw Rheoladwy 2021/22
Nodwyd yr adroddiad.

42 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Asesiad o Lesiant Lleol
Nodwyd yr adroddiad.

43 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
Nodwyd yr adroddiad.

44 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet

i. Nododd yr Arweinydd mai hwn fyddai'r cyfarfod Cabinet olaf i Mr Stephen Johnson, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael cyn iddo ymddeol o'r Cyngor. Diolchwyd iddo am ei holl waith gwych dros y blynyddoedd a dymunwyd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.
ii. Yn ddiweddar, penodwyd Mr Duncan Hall yn Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael a dymunir yn dda iddo pan fydd yn dechrau yn ei rôl newydd.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar Dydd Mawrth, 6 Medi 2022

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol